

Annwyl Gyngorydd,

**CYNGOR SIR - DYDD MERCHER, 6ED RHAGFYR, 2023**

**8.1 RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORWYR JOHN JAMES A ANN DAVIES**

Gweler yn amgaeedig, copi o welliant i'r Rhybydd o Gynnig uchod.

Yn gywir,

*Wendy Walters*

Prif Weithredwr

Amg.

**Wendy Walters**

Prif Weithredwr, Neuadd y Sir,  
Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP

Chief Executive, County Hall,  
Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP



BUDDSODDWYR | INVESTORS  
MEWN POBL | IN PEOPLE

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg

You are welcome to contact me in Welsh or English

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

## **GWELLIANT I RYBUDD O GYNNIG (EITEM 8.1 AR YR AGENDA) A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORWYR JOHN JAMES A ANN DAVIES**

Mae'r Cyngor hwn yn condemnio torfladdiad erchyll pobl ddiniwed yn Israel ar 7 Hydref. Mae'r Cyngor hefyd wedi'i frawychu gan faint a chanlyniadau'r dial milwrol parhaus yn Gaza. Rydym felly yn galw ar y gymuned ryngwladol i wneud y canlynol:

- i. Uno i ddarparu'r ymateb dyngarol sydd ei angen i ddiogelu bywydau diniwed sydd wedi'u dinistrio gan y gwrthdaro hwn, a sicrhau bod mynediad at fwyd, dŵr, meddyginiaethau a'r ffynhonnell bŵer, sydd eu hangen ar frys.
- ii. Ceisio cadoediad ar unwaith i ddod â'r dioddefaint dynol presennol i ben.
- iii. Cefnogi'r alwad gan gymunedau ledled y byd i'r **HOLL** wystlon gael eu rhyddhau a'u dychwelyd adref at eu teuluoedd.
- iv. Gweithio gyda chynrychiolwyr Israel a Phalesteina i ddod â'r gwrthdaro presennol i ben a thrafod setliad heddwch parhaol sy'n darparu diogelwch a dyfodol tymor hir heddychlon i'r ardal hon, yn seiliedig ar yr egwyddor o ddatrysiad dwy wladwriaeth.
- v. **“Ailddatgan hawl Israel a Phalesteina i fodoli, a chydabod bod gwrthod hawl Israel i fodoli yn fath o wrthsemitiaeth, fel y gwnaed yn glir yn niffiniad Cynghrair Ryngwladol Cofio'r Holocaust o wrthsemitiaeth.  
Mae cydnabod hawl Israel a Phalesteina i fodoli yn gam hanfodol tuag at heddwch trwy ddatrysiad dwy wladwriaeth”.**

Cynigiwyd gan: Y Cynghorydd Gary Jones  
Eiliwyd gan: Y Cynghorydd Crish Davies

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol